


# Canllaw Asesu Effaith Penderfyniadau Polisi ar y Gymraeg: Addysg a Hyfforddiant

**Dyddiad cyhoeddi: Mai 2026**

# Cynnwys

Cefndir........................................................................................................ 3
Cyd-destun deddfwriaethol........................................................................................ 4
Prif Egwyddorion Safonau Llunio Polisi......................................................................... 4
Newid yr ymagwedd tuag at gynllunio ym maes polisi iaith addysg ................................ 4
Gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried y Gymraeg wrth gynnal asesiad effaith o benderfyniad polisi newydd neu ddiwygiedig o fewn y maes addysg. ........................ 5
Ffactorau i'w cadw mewn cof wrth ddatblygu polisïau sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau llunio polisi: .................................................................................. 7
Cyngor ac arweiniad pellach ........................................................................................ 7

# Cefndir

Mae’r canllaw hwn yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol i swyddogion sydd ynghlwm â’r prosesau o lunio a gwneud penderfyniadau polisi o fewn awdurdodau lleol i wirio a yw’r prosesau sydd wedi eu mabwysiadu wrth lunio polisi newydd neu ddiwygiedig yn y maes addysg a hyfforddiant yn eu cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion Safonau’r Gymraeg.

Mae’r templed yn adnodd ymarferol i dywys gwneuthurwyr polisi drwy’r camau sydd angen iddynt eu hystyried wrth asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Mae’n bosib bod templedi amgen eisoes mewn lle gan nifer o awdurdodau lleol felly nid oes rheidrwydd i ddefnyddio’r templed hwn ar ben ei hun. Yn hytrach gellir ei ddefnyddio i gyfoethogi unrhyw brosesau neu dempledi sydd eisoes mewn lle wrth asesu effaith polisïau yn y maes addysg. Yn yr un modd, byddai’n bosib i awdurdodau lleol addasu eu templedi cyfredol er mwyn adlewyrchu’n well y camau sydd wedi eu gosod yn y templed hwn.

Er mai prif gynulleidfa darged y canllaw yw swyddogion o fewn awdurdodau lleol, mae’r cyngor a’r egwyddorion hefyd yn berthnasol i unrhyw gorff cyhoeddus wrth iddynt wneud penderfyniadau polisi o fewn y maes addysg. Gall y canllaw hwn felly fod yn ddefnyddiol i golegau, prifysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant a chyrff cyhoeddus eraill sydd yn gweithredu o fewn y sector addysg.

Mae’r canllaw ymarferol hwn yn cynnwys:

- Templed i gynorthwyo gyda’r broses o gynllunio polisïau ieithyddol cyfun ym maes addysg a hyfforddiant.
- Asesiad enghreifftiol sydd yn arddangos arferion da.

Noder nad yw dilyn y canllaw a’r templed hwn, ynddo’i hun, yn gwarantu cydymffurfiaeth â gofynion y safonau. Yn hytrach, bwriedir iddynt weithredu fel adnodd ymarferol i gefnogi swyddogion wrth asesu effaith penderfyniadau polisi addysg ar y Gymraeg, gan eu tywys drwy’r broses ac amlygu egwyddorion ac arferion da. Dylid hefyd ystyried y canllaw hwn ochr yn ochr â’r ddogfen gyngor gyffredinol sydd eisoes ar gael ar gynnal asesiadau o effaith polisïau ar y Gymraeg, gan fod y ddogfen hon yn ategu ac yn adeiladu ar y cyngor hwnnw mewn cyd-destun addysg.

# Cyd-destun deddfwriaethol

Mesur y Gymraeg ( Cymru) 2011 yw'r ddeddfwriaeth sy'n sail i safonau'r Gymraeg.

Bwriad y safonau yw hybu a hwyluso'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Disgwylir i sefydliadau gydymffurfio â safonau yn y meysydd canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Hybu
- Cadw cofnodion

# Prif Egwyddorion Safonau Llunio Polisi

Mae'r safonau llunio polisi yn ymwneud â'r ffordd mae sefydliad yn ystyried effeithiau ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Maent yn cyfeirio'n benodol at yr angen i ystyried y Gymraeg, sut y gellir hyrwyddo'r defnydd ohoni, wrth lunio polisi newydd neu addasu polisi cyfredol.

Mae hefyd yn nodi'r angen i wneud hynny mewn modd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, pa un yw'r rheiny'n effeithiau positif neu andwyol.

- Rhaid rhoi 'ymdrech gydwybodol' i'r broses o ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg a rhaid dangos tystiolaeth fod hynny wedi digwydd.

# Newid yr ymagwedd tuag at gynllunio ym maes polisi iaith addysg

Mae angen cyfundrefn addysg a hyfforddiant yng Nghymru sy'n darparu'n llawn ar gyfer hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Rhaid hefyd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn y gyfundrefn honno.

Rhaid i bob penderfyniad polisi ym maes addysg, a meysydd cysylltiedig, ddangos yn glir fod anghenion y Gymraeg wedi eu cymryd i ystyriaeth.

Mae rhai awdurdodau lleol a chyrff addysgol eisoes yn gwneud hyn ond mae'n parhau yn her i eraill ac yn gofyn am fwy o gynllunio bwriadus o ystyried natur ddwyieithog ein cyfundrefn addysg. Ar adegau bydd hyn yn gofyn am newid sylfaenol mewn ymagwedd tuag at y broses o gynllunio ar gyfer datblygu cyfundrefn addysg cwbl ddwyieithog.

Er mwyn peidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr o'r cychwyn cyntaf. Ni ddylai'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg fod yn ystyriaeth ychwanegol, neu eilradd.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg dylai awdurdodau lleol, wneud 'ymdrech gydwybodol' i:

- ystyried effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi
- fesur effaith unrhyw ddatblygiad ar addysgu'r Gymraeg fel pwnc a'i defnydd fel cyfrwng, ac ar y defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol.

Nid yw bellach yn fater i 'ddisgresiwn rhesymol' sefydliad unigol.

Wrth lunio polisïau newydd bydd y broses o roi ymdrech gydwybodol i ystyriaeth effaith ar y Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal ac o bolisi i bolisi. Bydd yr ystyriaethau hefyd yn amrywio yn ôl y cyd-destun ieithyddol ac yn ôl natur a bwriad y polisi. Bydd rhai datblygiadau yn gofyn am fwy o sylw i faterion ieithyddol tra bo eraill yn gofyn am ystyriaeth wahanol.

Rhaid ystyried anghenion y Gymraeg fel sail i bob penderfyniad polisi ym maes addysg, a meysydd cysylltiedig, gan nodi'n glir beth yw canlyniadau polisi'r ystyriaethau hynny. Bydd hyn yn arwain at benderfyniadau polisi clir sy'n datblygu system addysg ieithyddol gyfun yn ôl cynlluniau ac amcanion pob awdurdod lleol.

## Gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried y Gymraeg wrth gynnal asesiad effaith o benderfyniad polisi o fewn y maes addysg

Gan fod datblygu polisi newydd neu ddiwygiedig yn broses dros gyfnod o amser sydd â chyfres o gamau penodol iddi, ni ddylid meddwl am asesiad effaith fel dogfen y dylid ei defnyddio ar ôl i'r polisi newydd gael ei chyflwyno ac ar ddiwedd y broses. Yn hytrach dylai'r asesiad fod yn ddogfen fyw y gellir cyfeirio ati drwy gydol y daith gynllunio a chyflwyno'r polisi. Gellir defnyddio'r ddogfen hon felly wrth:

- **Gydweithio er mwyn sicrhau newid**

  Mae creu ymdeimlad o gydweithio ymysg ystod o randdeiliaid yn golygu bod pawb yn deall y broses, rhesymeg, pwrpas, a buddion y polisi newydd neu ddiwygiedig. Mae hyn yn hanfodol i lwyddiant y polisi. Mae bod yn glir am y gofyniad cyffredinol i sicrhau fod unrhyw newid yn cefnogi cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio a chael mynediad i wasanaethau yn y Gymraeg, hefyd yn ofyniad hanfodol.

- **Werthuso'r camau cyn dechrau ar gynllunio.**
  Bydd hyn yn cynnwys asesiad o hyfywedd y polisi newydd. Bydd yr asesiad hwn yn greiddiol i'w lwyddiant. Dylid cynnwys agweddau ar addysg Gymraeg yn y cynllunio cychwynnol hwn a gwirio a fydd y polisi newydd yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y Gymraeg.

  Enghraifft dda o hyn fyddai cynnal asesiad ar drefniadau cludiant all gael ei effeithio yn anuniongyrchol wrth wneud penderfyniad i ad-drefnu yr ysgolion.

- **Werthuso parhaus wrth i'r broses fynd yn ei blaen**
  Yn ystod y broses o lunio a rhoi polisi newydd (neu ddiwygiedig) ar waith byddwch yn defnyddio dulliau i sicrhau bod camau allweddol yn cael eu cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys tasgau penodol sydd ynghlwm â'r polisi, megis cyllido, ansawdd, targedau, amserlen ayyb. Fel rhan o'r tasgau creiddiol hyn dylid ystyried y Gymraeg ac effaith ar addysg Gymraeg er mwyn sicrhau fod' ystyriaeth gydwybodol' wedi ei roi i'r Gymraeg drwy gydol y broses a'ch bod chi'n medru dangos hynny'n glir.

- **Werthuso yn sgil cwblhau'r broses**
  Pan fydd y broses ar orffen, ac wedi iddi orffen, bydd angen dadansoddi'r graddau y llwyddwyd i gyflawni'r tasgau creiddiol. Bydd y targedau a gytunwyd ar y dechrau yn hanfodol ar gyfer yr asesiad hwn. Dyna pam mae cynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth greiddiol o'r dechrau yn bwysig er mwyn dangos fod 'ystyriaeth gydwybodol' wedi ei roi i'r agwedd honno o'ch cyfrifoldeb fel awdurdod lleol.

Wrth ddefnyddio'r templed sydd wedi ei ddarparu, dylech benderfynu ar y cychwyn pryd y byddwch yn defnyddio'r gwahanol adrannau o'r templed. Cynigir canllaw yn y templed ei hun ond efallai y byddwch yn dymuno delio â'r gwahanol agweddau yn ôl eich trefn gynllunio ac asesu eich hun.

## Ffactorau i’w cadw mewn cof wrth ddatblygu polisïau sy’n sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau llunio polisi:

- A yw’r ffactorau ieithyddol, addysgol a chymunedol allweddol wedi eu hadnabod a’u hystyried yn llawn?
- A fu digon o ddadansoddi a dehongli ar y ffactorau hynny? A ddefnyddiwyd y data perthnasol wrth ddehongli’r effeithiau tebygol?
- A oes proses benodol i’w dilyn wrth ddod i gasgliad ynglŷn â p’un a oedd gan y datblygiad effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol ar y Gymraeg?
- Pa gamau a fabwysiadwyd i sicrhau fod effeithiau’r polisi yn rhai cadarnhaol?
- Pa gamau neu opsiynau a ystyriwyd/mabwysiadwyd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?
- A fu ymgynghori digonol a phriodol gydag ystod pwrpasol o randdeiliaid a sut yr ymdriniwyd â chasgliadau’r ymgynghoriad?

## Cyngor ac arweiniad pellach

Mae’r Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen gyngor ar weithredu a chydymffurfio â’r safonau llunio polisi:

Penderfyniadau polisi

Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 y Comisiynydd hefyd yn cynnig arweiniad ar yr hyn sydd yn ddisgwyliedig o gyrff wrth iddyn ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015